# Maniffesto'r Rhwydwaith Maethu

## Etholiadau'r Senedd 2026

Mae nifer y plant sydd mewn gofal yng Nghymru yn parhau i godi bob blwyddyn. Roedd 7,200 o blant yn y system ofal yng Nghymru yn 2024, ac mae tua dwy ran o dair yn byw mewn gofal maeth.[1]

Mae gofalwyr maeth yn cynnig cartref diogel, cariadus a gofalgar i fabanod, plant a phobl ifanc pan na allant fyw gyda'u teuluoedd biolegol. Mae hyn yn golygu bod ganddyn nhw gyfle unigryw i wneud gwahaniaeth go iawn i fywyd plentyn.

Fel cymdeithas, mae gennym gyfle enfawr i wella bywydau plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ar gyfer y bobl ifanc hyn ac i harneisio eu potensial i sicrhau y gallant ffynnu a chael y plentyndod y maen nhw'n ei haeddu. Ond mae'r argyfwng mewn recriwtio a chadw gofalwyr maeth yn effeithio ar ein pobl ifanc bob dydd. Yn anffodus, mae mwy o ofalwyr maeth yn gadael nag sy'n ymuno.

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i gymryd camau beiddgar, ar frys, i fynd i'r afael â'r ansefydlogrwydd a'r canlyniadau gwael sy'n bodoli ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, fel y gall ein system ofal ddarparu cartrefi sefydlog a chariadus yn agos at gymunedau plant.

**Rydyn ni'n galw ar bob plaid wleidyddol i wneud y canlynol:**

1. **Canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal**
2. **Cefnogi gofalwyr maeth**
3. **Buddsoddi yn y system ehangach sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'i diwygio**

# Canolb wyntio ar blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal

## The problem

Yng Nghymru, canfu ein harolwg Cyflwr y Genedl 2024[2] mai dim ond 43% o ofalwyr maeth a oedd yn teimlo eu bod mewn lleoliad da ar gyfer y plentyn y cawsant eu paru â nhw yn fwyaf diweddar i aros yn yr un ysgol, a theimlai 73% eu bod mewn lleoliad da i'r plentyn gynnal cysylltiadau â theulu a ffrindiau. Roedd y ddau ffigur hyn yn is na'n harolwg diwethaf yn 2021. Mae hyn yn golygu bod llawer o fabanod, plant a phobl ifanc yn byw yn rhywle nad yw'n diwallu eu hanghenion.

Mae babanod, plant a phobl ifanc sy'n cyrraedd gofal eisiau cynnal perthnasoedd gyda'u teuluoedd a'u cymunedau. Mae angen digon o deuluoedd maeth hynod fedrus arnom ni yn lleol sy'n gallu gofalu am blant lle maen nhw eu hangen.

## Beth all eich plaid wleidyddol ei wneud am y peth:

- Sicrhau bod cronfa amrywiol, lleol o ofalwyr maeth i alluogi pob babi, plentyn a pherson ifanc i gael eu lleoli gyda gofalwyr maeth sy'n diwallu eu hanghenion. Ymrwymo i stopio plant rhag cael eu lleoli filltiroedd o gartref (oni bai bod hynny er lles pennaf y plant) a datblygu a chyhoeddi strategaethau cenedlaethol a lleol i gynyddu'r cyflenwad o opsiynau lleol priodol.
- Buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl i blant a chymorth ychwanegol ar gyfer dysgu. Sicrhau bod pob babi, plentyn a pherson ifanc sydd mewn gofal maeth yn cael diogelwch a sefydlogrwydd yn eu cartref maeth a darparu cyllid i sicrhau eu bod yn cael cymorth i aros tan eu bod yn 25 oed (p'un a ydynt mewn addysg neu gyflogaeth ai peidio).
- Cyflwyno mesurau i sicrhau y gall bob plentyn feithrin a chynnal perthnasoedd positif, ymddiriedus, gydol oes gyda'u teulu ac eraill sy'n bwysig iddyn nhw, gan gynnwys gofalwyr maeth, yn unol â'n 'Egwyddorion Cadw Cysylltiad'.
- Sicrhau bod gan bob plentyn mewn gofal maeth lais sy'n cael ei glywed o ran penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.
- Mabwysiadu 'Bil Pob Plentyn'[3] i'ch maniffesto i sicrhau bod gan bob plentyn yng Nghymru hawl gyfreithiol i gael eu clywed, eu diogelu a'u cefnogi.

# Cefnogi gofalwyr maeth

I gefnogi babanod, plant a phobl ifanc i ffynnu, ein gweledigaeth yw y dylid ystyried pob gofalwr maeth yn aelodau cyfartal a gwerthfawr o'r tîm o amgylch y plentyn. Dylid parchu a gwerthfawrogi eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u harbenigedd.

## Y broblem

Mae gan ofalwyr maeth rôl unigryw o fewn y sector plant – nhw yw'r unig rai sy'n cefnogi plant yn eu cartrefi eu hunain, 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn, ac yn eu croesawu fel rhan o'u teuluoedd.

Ond nid oes gennym ddigon. Bob blwyddyn mae nifer y teuluoedd sy'n maethu yn gostwng, tra bod y nifer o blant sy'n cyrraedd gofal yn cynyddu. Rydyn ni wedi amcangyfrif bod angen 300 yn fwy o deuluoedd maeth yng Nghymru. Yn benodol, mae angen teuluoedd maeth a all gefnogi grwpiau o frodyr a chwiorydd i sicrhau y gellir gofalu am blant gyda'i gilydd ac nad ydynt yn colli cysylltiad â'u teulu.

Yn anffodus, mae gofalwyr maeth yn gadael y sector am wahanol resymau, yn bennaf oherwydd tair thema allweddol:

I. Diffyg cymorth digonol

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2025 yn deddfu ar gyfer tynnu elw o ofal cymdeithasol plant, gan sicrhau bod y sector elusennol yn rhan allweddol o gefnogi gofalwyr maeth, ac felly rhaid ei gydnabod a'i ariannu ochr yn ochr â gwasanaethau awdurdodau lleol.

Yn ein harolwg Cyflwr y Genedl, gofynnwyd i ofalwyr maeth sgorio'r gwahanol fathau o gymorth ar gyfer maethu. Yng Nghymru, cymorth y tu allan i oriau a gafodd y sgôr isaf, gyda dim ond 38% yn dweud ei fod yn wych neu'n dda, i lawr o 47% yn 2021. Yn ogystal, canfu 63% gymorth gan ofalwyr maeth eraill i fod yn wych neu'n dda, i lawr o 67% yn 2021.

II. Teimlo nad yw eu rôl yn cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu ddigon yn y tîm o amgylch y plentyn ac nad yw eu harbenigedd yn cael ei glywed

Canfu ein harolwg Cyflwr y Genedl 2024 mai dim ond 58% o ofalwyr maeth yng Nghymru a oedd wastad yn teimlo neu fel arfer yn teimlo eu bod yn cael eu trin fel aelod cyfartal a gwerthfawr o'r tîm o amgylch y plentyn gan weithwyr cymdeithasol y plant.

Rydyn ni'n credu mai un ffordd o godi statws gofalwyr maeth yn y tîm o amgylch y plentyn, yn ogystal â gwella paru, sicrhau bod digon o leoliadau, a diogelu plant, yw cyflwyno cofrestr genedlaethol ar gyfer gofalwyr maeth fel sy'n bodoli ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Teimlodd 74% o ofalwyr maeth yng Nghymru yn bositif neu'n niwtral am gyflwyno cofrestr genedlaethol.

III. Dim digon o gymorth ariannol i gydnabod eu hamser, eu sgiliau a'u harbenigedd (eu lwfansau a'u ffioedd)

Mae gofalwyr maeth yn derbyn lwfans i ysgwyddo costau gofalu am blentyn a ffi am eu hamser, eu sgiliau a'u harbenigedd. Canfu ein harolwg mai dim ond 25% o ofalwyr maeth yng Nghymru a oedd yn teimlo bod y lwfans maethu ac unrhyw dreuliau y gellir eu hawlio, yn bodloni costau llawn gofalu am y plentyn maen nhw'n ei faethu, i awr o 53% yn 2021. Dim ond 13% o ofalwyr maeth a ddywedodd eu bod yn teimlo bod

eu ffi yn ddigonol i dalu eu costau byw hanfodol. I Dywedodd tri chwarter o ofalwyr maeth y dylai’r Llywodraeth gyflwyno fframwaith ffioedd cenedlaethol, fel sydd ar gyfer lwfansau.

Yn ogystal, oherwydd eu statws hunangyflogedig, nid yw gofalwyr maeth yn derbyn pensiwn ac mae’r rhan fwyaf o ofalwyr maeth yng Nghymru rhwng 55-64 oed, gan roi eu diogelwch ariannol hirdymor mewn perygl.

### Beth all eich plaid wleidyddol ei wneud am y peth:

- Ariannu gwasanaethau i ddarparu cefnogaeth well ar gyfer gofalwyr maeth, gan gynnwys cymorth therapiwtig, cymorth gan gymheiriaid, a chymorth tu allan i oriau gwaith. Sicrhau bod gan bob gofalwr maeth fynediad at rwydwaith cymorth cymeradwy neu berson a all ddarparu gofal dros nos i'r plant maen nhw’n eu maethu.
- Ariannu rhaglenni maethu arloesol sy’n canolbwyntio ar gadw gofalwyr a chymorth gan gymheiriaid fel Llesiant Maethu[4] a Mockingbird[5].
- Creu strategaeth recriwtio a chadw genedlaethol ar gyfer gofal maeth, ac ariannu ymgyrchoedd recriwtio gofalwyr maeth cenedlaethol, sy’n cwmpasu'r trydydd sector, i gyd-fynd â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2025 i gynyddu'r gronfa o ofalwyr maeth sydd ar gael.
- Cyflwyno cofrestr ar gyfer gofalwyr maeth yng Nghymru.
- Gwella cymorth ariannol, gan gynnwys cysoni lwfansau, fframwaith ffioedd cenedlaethol a argymhellir a delir 52 wythnos y flwyddyn, eithriad treth cyngor i ofalwyr maeth a chynllun pensiwn cenedlaethol i ofalwyr maeth ledled Cymru.
- Cyflwyno isafswm statudol ychwanegol o 5 diwrnod o wyliau â thâl ar gyfer gofalwyr maeth sy’n gweithio ochr yn ochr â’u rôl maethu, fel yr argymhellir yn ein polisi Cyflogwyr sy’n Gyfeillgar i Faethu.[6]

## Buddsoddi yn y system ehangach gan gefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a’i diwygio

Er mwyn i ofalwyr maeth allu rhoi'r gefnogaeth orau bosib i bobl ifanc, mae angen system gofal cymdeithasol i blant sydd wedi'i hariannu'n dda sydd wirioneddol yn gwerthfawrogi gofal maeth ac sy'n gallu cefnogi teuluoedd ar yr adeg pan fyddant mewn angen cyn i'w hanghenion waethygu.

## Y broblem

Mae’r system gofal cymdeithasol plant mewn argyfwng. Mae mwy o blant nag erioed yn cyrraedd gofal, ac ar yr un pryd, mae cyllid ymyrraeth gynnar wedi cael ei dorri dros y degawd diwethaf.

Mae plant yn cyrraedd gofal yn hwyrach, gydag anghenion mwy cymhleth, sy'n golygu bod angen mwy o gymorth arbenigol arnyn nhw wrth ofalwyr maeth. Mae’r system gofal cymdeithasol, a ddylai fod yn gallu cefnogi gofalwyr maeth, ar y dibyn, gyda llwyth achosion a throsiant gweithwyr cymdeithasol yn uchel.

Ar ben hynny, mae plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn dal i wynebu stigma, gwahaniaethu a rhwystrau i gyflawni eu potensial llawn o'r systemau ehangach yn ein cymdeithas.

### Beth all eich plaid wleidyddol ei wneud am y peth:

- Diwygio gofal cymdeithasol plant ar raddfa fawr, a buddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau ymyrraeth gynnar, fel buddsoddi mewn cyflwyno ein gwasanaeth ataliol Camu i’r Adwy Cyn Camu Yn Ôl [7] i bob awdurdod lleol yng Nghymru, yn dilyn cynllun peilot yn Sir Benfro a Phowys.
- Cyflwyno mesurau newydd i fynd i’r afael â throsiant a llwyth achosion gweithwyr cymdeithasol ar gyfer teuluoedd maeth, fel cyflwyno deddfwriaeth llwyth achosion, patrymau sifftiau i ddisodli’r 9 tan 5, adolygiad o fframweithiau cymwysterau gweithwyr cymdeithasol a systemau cylchdro ar gyfer gweithwyr sydd newydd gymhwyso.
- wneud y Siarter Rhianta Corfforaethol yn orfodol a fyddai’n sicrhau bod pob adran o’r llywodraeth a’r cyrff cyhoeddus perthnasol sy’n cefnogi plant â phrofiad o fod mewn gofal, (fel addysg, iechyd a gwasanaethau iechyd meddwl) yn cadw at eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ac yn cael eu dwyn i gyfrif amdanyn nhw.
- Gwneud profiad o ofal yn nodwedd warchodedig a fyddai’n helpu i fynd i’r afael â’r stigma a’r gwahaniaethu sy’n wynebu pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal drwy gydol eu hoes.
- Ail-sefydlu’r Bwrdd Maethu Cenedlaethol yn Llywodraeth Cymru i gynnal goruchwyliaeth a chynnydd hanfodol mewn perthynas â gwelliannau i’r ddarpariaeth maethu yng Nghymru.

1. Llywodraeth Cymru (2025) Plant sy'n derbyn gofal ar ôl 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a math o leoliad
2. Covell. T, Ellis. S and Williams.N (2025) State of the Nations' Foster Care Spotlight on Wales Report 2024, The Fostering Network
3. Mae Bil Pob Plentyn yn gynnig deddfwriaethol ar gyfer Deddf a fyddai o fudd i bob plentyn yng Nghymru.
4. Mae Llesiant Maethu yn anelu at wella canlyniadau llesiant i blant a phobl ifanc, ac yn hyrwyddo statws cyfartal i bawb sy'n rhan o'r 'tîm o amgylch y plentyn'.
5. Mae Mockingbird yn fodel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi'i strwythuro o amgylch y cymorth a'r perthnasoedd y mae teulu estynedig yn eu darparu.
6. Mae'r cynllun Cyflogwyr sy'n Gyfeillgar i Faethu y Rhwydwaith Maethu yn cynnig cyfle i fusnesau o unrhyw faint wneud gwahaniaeth i ofalwyr maeth a'r plant y maen nhw'n gofalu amdanyn nhw yn eu cymunedau lleol, drwy wella'r cymorth i'w gweithwyr eu hunain.
7. Mae Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl (SUSD) yn ddull arloesol o gefnogi teuluoedd ar ymyl gofal, sy'n lleihau nifer y plant sy'n cyrraedd gofal ac yn gwella canlyniadau i blant a theuluoedd.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r tîm Polisi ac Ymgyrchoedd.

E-bostiwch: campaigns@fostering.net

**thefosteringnetwork.org.uk**

thefosteringnetwork

@fostering.net / @tfn_campaigns

@thefosteringnetwork

The Fostering Network Registered office 87 Blackfriars Road, London SE1 8HA
Registered charity in England and Wales 280852 and in Scotland SC039338
Registered in England and Wales as a limited company no. 1507277 VAT Registration 231 6335 90
thefosteringnetwork.org.uk